Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan, Caerdydd, CF23 9BS
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* aluntudur@btinternet.com**

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel, Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UE
***Ffôn:* 01766 513138**
***E-bost:* IwanLlew@aol.com**

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
***Ffôn:* 01267 232577 / 0781 751 9039**
***E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk**

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe ABERTAWE SA7 0AJ
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.org**

Dalier Sylw!
Cyhoeddir y Pedair Tudalen Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Pedair Tudalen ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys y Pedair Tudalen.

Operation Christmas Child

Daeth nifer fawr o aelodau a ffrindiau ynghyd i Gapel Hope-Siloh Pontarddulais ar fore Tachwedd 20 i wasanaeth arbennig 'Operation Christmas Child'. Cyflwynwyd hanes yr elusen gan ieuenctid y capel a chafodd y plant lleiaf hwyl yn dangos peth o gynnwys eu bocsys i'r gynulleidfa. Casglwyd 68 o focsys ynghyd a £180 ar gyfer hybu gwaith yr elusen. Gobeithiwn yn fawr y caiff nifer o blant llai ffodus na'n plant bach ni ychydig o bleser a hwyl y Nadolig hwn.

Ebeneser, Wrecsam

Braint oedd cael derbyn tair o'r aelodau yn ddiaconiaid i'r eglwys ddechrau Tachwedd eleni. Mae Helen Green, Sian Eleri Evans a Sian Barnet yn aelodau ffyddlon a gweithgar yn Ebeneser ac fe fyddant yn gaffaeliad mawr fel diaconiaid a dymunaf bob bendith iddynt hwy ac i'r eglwys yn y cyfnod newydd yma yn ein hanes.

Trefor Jones-Morris

SIÔN CORN YM MWLCH-Y-CORN!

Mae'n siŵr bod llawer ohonom yn cofio'r cyffro a'r rhyfeddod pan oedd Siôn Corn yn dod i'r capel neu'r festri slawer dydd. Roedd yn 'wobr' am fod yn blant bach da yn yr Ysgol Sul!

Mae'n draddodiad sy'n parhau mewn sawl lle. Fe ddaeth yr hen ŵr i gapel bach Bwlch-y-corn unwaith eto eleni ar ddiwedd Oedfa Nadolig y Teulu, gyda llond sach o anrhegion.



Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Wasg Morgannwg, 27 Ystad Ddiwyd. Mynachlog Nedd, Castell-nedd, SA10 7DR. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.

PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 149 Rhif 52/53 Rhagfyr 22/29, 2016 50c.

NADOLIG
llawen a heddychlon
i holl ddarllenwyr y Tyst

DAETH DUW'N DDYN:
Y Wyrth Ganolog

Daeth y rhan fwyaf ohonom ar draws y teitl hwn o'r blaen mewn hanesyn neu bregeth oedd yn sôn am enedigaeth y baban Iesu ar adeg y Nadolig. I lawer o'r boblogaeth, golyga'r Nadolig wyliau arbennig, partïon di-rif, bwyd blasus ac ymhlith nifer gormod i'w yfed. Mae'r capeli, eglwysi a'r Ysgolion Sul wedi gwahodd eu haelodau i ddarllen rhannau neilltuol o'r Ysgrythurau, i ganu carolau ac i lwyfannu dramâu byrion sy'n sôn am addewidion yr Hen Destament a chyflawniadau'r Groes yn y Testament Newydd.

'Daeth Duw'n Ddyn' ar y Dydd Nadolig cyntaf a fu, pan anwyd Iesu Fab Duw o groth Mair ei fam. Erbyn heddiw, rydym yn dueddol o anghofio'r sefyllfa ryfeddol hon yn hollol! Yn ei lyfr *'Miracles'* adrodda C. S. Lewis taw'r wyrth ganolog i Gristnogion yw'r Ymgnawdoliad. Mynnai 'Daeth Duw'n Ddyn' a cheir pob gwyrth arall yn paratoi ar gyfer hyn, neu yn dangos hyn, neu yn tarddu o hyn. Ychwanega hefyd taw hyn oll yw 'Y Prif Ddigwyddiad' yn hanes y ddaear hon.

Daeth adeg edmygu'r goeden Nadolig a'i goleuadau'n wincio, y tinsel, y miwsig...yr anrhegion. Teg fyddai cofio am gyfraniadau Efengyl Mathew (1:18-25) ac Efengyl Luc (1:26-35; 2:1-7). Nadolig Llawen i chi!

Edwin Courtney Lewis

Tabernacl, Pencader

Bu plant Ysgol Sul, Tabernacl Pencader yn cynnal oedfa ddiolchgarwch ar Sul Tachwedd 13. Thema'r oedfa oedd Iesu a'r Helfa Fawr o Bysgod. Wedi cymryd eu tro yn darllen am y wyrth a chanu nifer o emynau, uchafbwynt yr oedfa i'r plant oedd gorffen llanw'r naw blwch esgidiau a theganau i'w hanfon i blant nad yw'n debyg y byddant yn derbyn anrhegion dros y Nadolig. Trefnir y prosiect yma gan y Samariaid, a byddant yn rhoi gwybod i ni ymhen amser i ble mae'r blychau wedi mynd. Diolch i'r plant am ddod â'r teganau i lenwi'r blychau.

Bedydd

Ar ddechrau'r oedfa bedyddiwyd John Henri Williams, a gwelir ef yn y llun yng nghôl ei fam Nerys. Hefyd yn y llun mae'r gweinidog y Parchedig Rheinallt Davies, Carwyn, tad y baban, a'i ddwy chwaer Magi ac Elsi.

NADOLIG Y PRIORDY: Help llaw gan y Mwslemiaid

Oherwydd bod dros 50 blant a 30 o bobl ifanc yn cymryd rhan - yn ogystal a dau gôr oedolion - d'oedd dim digon o le i ymarfer drama'r Nadolig yn y festri.

"Ymholwyd â chanolfannau addoli eraill yn Heol y Prior," meddai'r Parchg Beti-Wyn, "a chafwyd cynnig gan y Ganolfan Islamaidd i ddefnyddio hen gapel Bethania, a gafodd ei brynu ganddynt yn ddiweddar.

Cawsom groeso gan y gymuned Islamaidd a mawr yw ein diolch iddynt am eu haelioni. Thema'r oedfa oedd y Gair yn y Gwair."

Mentro Dweud, Mentro Gwneud

Wrth gynllunio'r thema ar gyfer diwrnod hyfforddi gweinidogion y Gogledd ddechrau Rhagfyr, hwyrach y tybiwn mai diwrnod o ddau hanner fyddai hi, ond wrth i'r diwrnod fynd yn ei flaen, sylweddolodd pawb gymaint y mae mentro trefnu gweithgareddau newydd a mentro siarad am y ffydd ynghlwm wrth ei gilydd. Mae gweithgareddau yn ffordd o bontio rhwng yr eglwys a phobl ar y tu allan, ond rhaid i ni hefyd gael cynllun sut i helpu'r bobl rheiny **dros** y bont. Ac nid dim ond cael pobl i mewn i'r adeilad yw'r nod, ond eu helpu i ddod i gredu ac i dyfu yn eu ffydd. Mae gweithgareddau yn medru rhoi llwyfan i ni, a chynulleidfa sydd ddim gennym ni o Sul i Sul. A'r cwestiwn wedyn, wedi cael llwyfan a chael cynulleidfa newydd - beth ydan ni'n mynd i'w gyhoeddi o'r llwyfan hwnnw?

Mentro dweud…yr hanes i gyd

Cawsom ein hatgoffa gan y Parchg Rhun Murphy gymaint o gyfle yw'r Nadolig i gyrraedd at gynulleidfa sydd ddim yno drwy'r flwyddyn. Buom yn meddwl am yr hyn sy'n bwysig i bobl am y Nadolig - rhoi anrhegion, treulio amser gyda'r teulu. Bu cryn drafod hefyd ar y lle y mae hanes y Geni yn ei gael mewn sioeau Ysgol y dyddiau yma, a sut y gall rhai plant gael stori Siôn Corn a hanes y baban Iesu wedi eu plethu'n un chwedl garbwl! Pan fydd gyda ni gyfle i ddweud beth yw gwir ystyr y Nadolig, beth fyddwn ni'n dweud? Y tueddiad yw dewis un agwedd: "Mae Duw yn dod atom yn Iesu i gydymdeimlo â'n profiad ni", neu "roedd Iesu'n ffoadur a dyma gyfle i ni gefnogi ffoaduriaid". Dydy'r negeseuon yma ddim yn anghywir ond mae nhw'n anghyflawn. Yn ein traddodiad Cymreig o emynau Plygain, mae neges y Nadolig a holl neges yr Efengyl wedi ei gwmpasu yn gyfoethog iawn. Mae'r Nadolig yn ymwneud â'r **ymgnawdoliad** - Duw yn dod i'r byd ym mherson Iesu i fod yn rhan o'r profiad dynol, ond cofiwn hefyd, fod Iesu wedi dod i **achub** y ddynolryw drwy farw ar y Groes. Er bod yr addewid am ei ddyfodiad yn mynd yn ôl i ddechrau amser, mae ei eni, a'r her sydd ymhlyg yn hynny, yn galw am **ymateb** gennym heddiw, nawr.

Torri'r iâ

Beth petaech chi'n mynd i'ch capel yn ystod tymor yr Adfent, a chael fod yno ganolfan sglefrio! Dyma oedd cynllun y cafodd y Parchedig Mererid Mair glywed amdano mewn cynhadledd dan nawdd CWM yn ddiweddar. Y bwriad y tu ôl i'r cynllun oedd helpu pobl o'r tu allan deimlo hi'n haws i gerdded i mewn drwy ddrysau capel, o gofio peth mor ddieithr ydy lle o addoliad i lawer a chymaint mwy o bobl y tu allan i'n heglwysi heddiw nag sydd y tu mewn. Cawsom glywed hefyd am gynllun sydd gan Eglwys Noddfa, Caernarfon pan fydd rhywun am ddod yn aelod o'r Eglwys. Yn hytrach na bod unigolyn yn cael ei baratoi ar ei ben ei hun, bydd yr Eglwys gyfan yn gwneud y cwrs gydag ef neu hi, a phawb yn cael eu hatgoffa o sut rydym yn perthyn i Dduw, yn perthyn i'n gilydd ac yn cael ein galw i newid y byd.

Mentro allan

Bu'r Parchedig Dylan Rhys Parry yn ein herio i fentro gam ymhellach. Yn hytrach na chreu gweithgareddau a gwahodd pobl i ddod atom ni, beth am fynd allan at bobl lle y maen' nhw? Rhoddodd enghreifftiau o weinidogaeth arloesi lle mae unigolion yn cael eu gosod mewn ardal arbennig neu mewn cyd-destun arbennig megis canolfan siopa. Yn hytrach na llenwi ei oriau gyda chynnal gwasanaethau a bugeilio, prif ffocws y gweinidog arloesol ydy dod i adnabod pobl yr ardal a dod i ddeall eu bywydau a'u hanghenion. Wrth gymysgu hefo pobl ar y stryd neu mewn caffi yn rheolaidd, mae hi'n naturiol y byddant am wybod pwy ydy'r gweinidog a pham mae ef neu hi yno. A dyna'r her iddyn nhw, ac i ninnau bob un, wrth i ni fynd o gwmpas ein gwaith a'n gorchwylion, i fod yn barod i fentro dweud, wrth esbonio i eraill i bwy 'da ni'n perthyn, beth 'da ni'n gredu ac ym mhwy rydym yn rhoi ein gobaith.

Cerfluniau'r Nadolig

Codwyd Ysbyty Clydach yn 1925 gan arian prin y trigolion i goffau colledion erchyll y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r ffaith iddynt godi ysbyty yn hytrach na chof-golofn neu giatiau ysblenydd yn dystiolaeth o'u gweledigaeth. Ar y cychwyn bu'r ysbyty'n trin glowyr gan fod cymaint o weithfeydd bach yn yr ardal. Gyda dyfodiad y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol is-raddwyd yr ysbyty a bu dirywiad i'w defnydd tan ei gau ychydig flynyddoedd yn ol. Gwerthwyd y safle ar gyfer tai fforddiadwy ond cadwyd yr adeilad hardd gwreiddiol. Wrth i'r contractwyr ddymchwel yr adeiladau daethpwyd o hyd i gerfluniau'r Geni: y baban Iesu, Joseff, Mair, dau ser-ddewin, dau fugail ac asyn unig a'u cynnig i Gapel y Nant i'w harddangos. Roedd gweddill y cymeriadau ar goll.

Yr Efengyl i Bawb - Myfyrdod Nadolig

Beth sydd yn eich tynnu ac yn eich denu chi at yr Arglwydd Iesu Grist? Tystiolaeth gwraig o'r enw Amy Price yw ei bod wedi cael ei denu at Iesu drwy waith yn yr Oriel Gelfyddyd Genedlaethol yn Llundain. Wrth iddi gerdded drwy'r neuaddau eang, a syllu ar weithiau'r meistri yn portreadu bywyd Iesu, teimlai ei bod yn cael ei denu i ddysgu mwy amdano.

Ar wyliau yn Majorca nifer o flynyddoedd yn ôl roedd oedfa'n cael ei chynnal ar fore Sul yn y gwesty lle roeddem yn sefyll. Er mawr syndod roedd y pregethwr wedi bod yn byw yn Aberystwyth, ac roedd ef wedi cael ei ddenu at Grist gan dract Cristnogol a gododd oddi ar y pafin un diwrnod yn Aberystwyth. Roedd y tract yn sôn am yr Arglwydd Iesu Grist gan bwysleisio ei gariad tuag atom a'r maddeuant a sicrhaodd ef i ni ar y groes. Cychwynnodd fy nhaith bersonol i at Grist gan ymwybyddiaeth real iawn o'r angen am faddeuant a hynny'n arwain at y wefr o brofi maddeuant a thangnefedd.

Bugeiliaid

Wrth ddarllen hanes y Nadolig cyntaf gwelwn fod dynion o gefndiroedd mor eithriadol o wahanol i'w gilydd wedi cael gwahoddiad gan Dduw i ddod at yr Arglwydd Iesu. Cyflwynir ni yn y Testament Newydd i fugeiliaid ac i seryddion o'r dwyrain. Ni ellid cael dau grŵp mwy annhebyg i'w gilydd. Ystyrid y bugeiliaid yn wehilion cymdeithas a chawsant eu labelu yn dwyllwyr ac yn gelwyddgwn. Nid oedd hawl gan fugeiliaid ddwyn tystiolaeth mewn llys barn. Nid oedd croeso iddynt yn y synagogau ac ystyrid hwy fel carfan y gymdeithas.

Doethion

Roedd y doethion ar y llaw arall yn perthyn i haen uchaf cymdeithas. Cawn brawf o hyn yn y ffaith pan ddaethant i Jerwsalem yn chwilio am yr un a aned i fod yn Frenin yr Iddewon, iddynt gael mynediad i balas Herod yn gwbl ddidrafferth a hyd yn oed i bresenoldeb Herod ei hun. Ni fyddai'r bugeiliaid wedi cael mynediad i'r cyntedd allanol. Dynion anllythrennog oedd y bugeiliaid heb unrhyw addysg. O'u cymharu roedd y seryddion neu'r *magoi* yn enwog am eu gwybodaeth, dyna paham y cyfeirir atynt fel doethion. Deuent o diriogaeth Iran ac roeddent yn enwog am eu gwybodaeth o ddogfennau crefyddol ynghyd â seryddiaeth. Hwy oedd ysgolheigion eu dydd a chyfeirid at eu dysgeidiaeth fel "deddfau'r Persiaid a'r Mediaid".

Gwaredwr Dynoliaeth

Ni ddaeth Iesu i fod yn Waredwr i ryw rai yn unig. Daeth i fod yn Waredwr y ddynoliaeth gyfan. Cafodd Iesu ei eni ym Methlehem Jwdea ar gyfer pawb. Nid oes neb yn ddibwys yng ngolwg Duw. Mae'r Efengyl i ***bawb*** beth bynnag yw eu statws mewn cymdeithas. Cyhoeddodd yr angylion wrth y bugeiliaid fod y newydd da am eni'r Gwaredwr yn newydd da "i'r holl bobl" (Luc 2:10). Mae gan bawb ohonom yr un angen dwfn am Waredwr yn nyfnderoedd ein bod. Atgoffir ni gan Paul, (Rhufeiniaid 3:23). "Does neb wedi gallu cyrraedd safon berffaith Duw ar eu pennau eu hunain" (Rhufeiniaid 3:23). Pwysleisia'r apostol ymhellach, "Daeth y Meseia Iesu i'r byd i achub pechaduriaid" (I Timotheus 1:15).

Un Ffordd

Mae Duw yn caru pobl, yr holl bobl ac yn dyheu ar i ni edifarhau am ein pechodau a dyfod ato i brofi ei faddeuant a'i ymgeledd. Sawl ffordd sydd at Dduw yn ôl y Beibl? Un! Deuwn at Dduw yn unig drwy ffydd yn yr Arglwydd Iesu Grist. Ef yw'r "ffordd a'r gwirionedd a'r bywyd" (Ioan 14:6). Nid oes neb yn dod at y Tad ond trwyddo Ef. Ond sawl ffordd sydd yna at Iesu? Cannoedd! Pob math o ffyrdd! Nid yw Duw'n ewyllysio bod neb yn mynd i ddistryw ond bod pawb yn dod i edifeirwch ac felly mae'n denu pobl o bob cefndir - bugeiliaid a doethion - gyda'i gariad mawr. Defnyddia Duw bob math o ffyrdd i dynnu pobl ato o dract Cristnogol ar y pafin i weithiau trawiadol y meistri mewn oriel gelfyddyd. Fe wnaiff hyd yn oed ddefnyddio chi a fi dim ond i ni adael iddo. Dywed Paul ein bod i fyw yn y fath fodd fel ein bod yn "disgleirio... fel goleuadau yn y byd" (Philipiaid 2:15) wrth rannu'r neges am yr Arglwydd Iesu Grist.

Cristnogion Syria

Yn y rhifyn cyfredol o Gylchgrawn Cymdeithas Annibynwyr y byd ceir anerchiadau gan y Parchedig Haroutune Selimian, Llywydd Eglwys Brotestannaidd yr Armeniaid yn Syria. Mae e'n byw ac yn gweinidogaethu yn Aleppo. Dywed fod pobl yn Syria yn chwilio am obaith i oroesi. Ceisia Cristnogion dewr, gynnig gobaith iddynt wrth fyw bywydau Crist debyg. Maen nhw'n mynnu gweini ar bobl beth bynnag yw eu cred neu eu hil. *"We serve people without discrimination,"* meddai Haroutune Selimian. Maent yn gweini ar bobl mewn ffyrdd ymarferol - dyma un enghraifft. Mae dinas Aleppo wedi bod heb ddŵr am ddwy flynedd ac mae Haroutune Selimian a'i gyd-aelodau wedi bod yn cloddio am ddŵr ac wedi agor ffynnon yn y cwrt o amgylch y capel ac yna maent yn dosbarthu'r dŵr i'r bobl. Dyma i chi ddynion a merched sy'n disgleirio fel goleuadau yn Aleppo heddiw - gweithredwyr trugaredd a heddwch, daioni a chariad.

Dywed Haroutune Selimian na all Syria, gael ei hail adeiladu heb yr eglwys Gristnogol – dynion a merched Crist debyg. Dyna'r sialens i ninnau hefyd dros y Nadolig ac i'r flwyddyn newydd - dangos cariad a daioni Crist yn ein cylch ni o fyw yn y fath fodd fel bod pobl yn dod i weld fod y Gwaredwr a aned ym Methlehem yn byw yn ein calonnau. Yn y Gwaredwr hwn mae gobaith y ddynoliaeth am gymod a heddwch, llawenydd a chariad.

Rhown glod i'r Mab bychan, ar liniau
Mair wiwlan,
daeth Duwdod mewn baban i'n byd:
ei ras O derbyniwn, ei haeddiant cyhoeddwn
a throsto ef gweithiwn i gyd. (Jane Ellis)

Andrew Lenny

Y Forwyn Fair

Dyma'r rhan gyntaf o'r ail Astudiaeth Feiblaidd a draddodwyd gan y Parchg Kenneth Lintern yng Nghyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr yn Llanuwchllyn. Y mae'r cynnwys yn amserol iawn dros gyfnod y Nadolig a'r Ystwyll.

Mae un wraig ar ôl yn achres Mathew, sef y Forwyn Fair, y person y mae Eglwys Rufain a'r Eglwys Uniongred wedi gwneud gormod ohoni, a ninnau wedi tueddu i'w hanwybyddu, ar wahân i'r ddrama Nadolig! A dyna ni'n dod at holl bwynt yr achres yn y lle cyntaf, sef dangos fod Iesu yn llinach Abraham a Dafydd, gyda phobl gymysg iawn yn yr achau. A dyna ni hefyd ar ffordd arall y mae'r Beibl yn berthnasol. Mae'n ysgogi syndod a pharchedig ofn ac addoliad. Cyn inni symud ymlaen darllenwch yr adnodau o'r 4 efengyl sy'n cyfeirio at Mair.

Cyfeiriadau

Y Geni - Mathew 1.16, 18-25.
Cyflwyno yn y Deml - Luc 2.34-35, 48-49;
Y Weinidogaeth - Marc 3.31-35;
Nasareth - Marc 6.2b-3, 5-6a;
Y Marw - Ioan 19.25-30.

Dywed Mathew: "Yr oedd Jacob yn dad i Joseff, **gŵr Mair**, a hi a roddodd enedigaeth i Iesu, a elwir (nid "elwid")/sy'n cael ei alw Christos/Eneiniog/Meseia." Mae "gŵr Mair" yn cyfateb i "gwraig Ureia". Nid oedd hi'n wraig Ureia pan anwyd Solomon, a bydd Mathew yn mynd ymlaen i ddweud nad oedd Mair yn **wraig** i Joseff pan feichiogodd ar Iesu. Hefyd Bathseba yw'r unig un o'r pedair gwraig arall nad oedd yn rheoli'r sefyllfa. Ac nid yw Mair yn **rheoli'r** sefyllfa – mae'n ufuddhau i Dduw.

Yr Achres

Abraham i Ddafydd, yr uchafbwynt yn hanes y genedl; Dafydd i'r Gaethglud, yr isafbwynt; y Gaethglud i'r Meseia, y pinacl a'r trobwynt. Mae Mathew yn dweud fod 14 cenhedlaeth ym mhob adran. Ond yn yr ail adran mae'n gadael allan bump o'r brenhinoedd, tri ohonynt yn cuddio cyfnod o ryw 80 mlynedd! Yn fwriadol? Ynteu a ydyw wedi cymysgu Ahaseia ac Asareia/Usseia, neu ei lygad wedi neidio o un i'r llall yn achresi'r Cronicl? Yn y drydedd ran 13 cenhedlaeth sydd. Go brin fod Mathew yn methu rhifo. Esboniad Stendahl yw mai Iesu yw Rhif 13 a Meseia yw Rhif 14, h.y. Iesu'n **dod** yn weladwy yn Feseia, yn Eneiniog yn ei fedydd neu ym muddugoliaeth ei atgyfodiad. A dyna pam y sonia Iesu am ddatguddiad oddi uchod yn wyneb Mathew 16:16-17: sef, Pedr yn gweld yn barod mai ef **yw'r** Meseia, er mewn eiliad yn dangos annealltwriaeth dybryd. Noder Actau 2. 33, 36:

*"Wedi iddo gael ei ddyrchafu at/drwy ddeheulaw Duw, a derbyn gan y Tad ei addewid am yr Ysbryd Glân, fe dywalltodd y peth hwn yr ydych chwi yn ei weld a'i glywed... Felly gwybydded holl dŷ Israel yn sicr fod Duw wedi ei **wneud** ef yn Arglwydd ac yn **Feseia**, yr hwn a groeshoeliasoch chwi."*

Genesis

Ym Mathew 1.1 ac 1.18 y gair am restr achau **a** genedigaeth (Iesu Grist) yw "genesis". Mae am i ni weld mai dyma ddechreuad newydd, yr ail Greu. Dywed mai **Jacob** oedd tad Joseff, ac yna "cenhedlodd" yn gorffen. Mae Joseff, fel Joseff yr Hen Destament, yn cael breuddwydion; mae ef a'i deulu yn mynd i lawr i'r Aifft; mae Herod, fel Pharo, yn lladd y babanod; mae yna ddod o'r Aifft. Wedyn, fel ym Marc a Luc, ceir y bedydd a'r anialwch. Mae Iesu'n ail-fyw profiad Israel, ond mewn ufudd-dod llwyr y tro hwn.

Cyflawni Proffwydoliaeth

Mae Mathew yn pwysleisio fod y cyfan sy'n digwydd er mwyn cyflawni proffwydoliaethau: "y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd" (neu fformwla debyg). Cred rhai fod Mathew wedi cydio yn y proffwydoliaethau a chreu digwyddiadau i'w gwireddu, ond mwy tebygol yw mai pwrpas Mathew yw dangos sut y mae digwyddiadau rhyfeddol wedi cyflawni'r proffwydoliaethau yn y modd mwyaf annisgwyl, eu cyflawni mewn ffordd amgenach na'r cyflawni gwreiddiol. Yn hyn o beth mae'n hynod o debyg i'r **Hebreaid**. Y dyfyniad a geir ym Mathew 1 yw'r un o LXX Eseia 7.14: "Wele, bydd y wyryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel." Mae'n od nad yw yn enwi Eseia, er ei fod **yn** ei enwi deirgwaith yn ddiweddarach yn yr efengyl.

Gwyryf

Gwnaed llawer o'r ffaith fod Mathew'n dweud "gwyryf", sy'n cyfateb i LXX parthenos yn Eseia 7.14, ond bod yr Hebraeg yn dweud 'almah, sef "morwyn, merch ifanc (ddibriod)" **neu** "**merch newydd briodi**". A ydyw wedi trefnu'r holl hanes i siwtio hyn? Mae'n amlwg ei fod am bwysleisio mai gwyryf oedd Mair wrth feichiogi ac felly'n cyflawni Eseia 7.14 mewn modd cwbl **annisgwyl**. A breuddwyd Joseff ynglŷn â hyn yw'r un bwysicaf. Honno sy'n newid ei "ystyried yn **dawel fach** ganslo'r briodas" (Beibl.net) am ei fod yn ddyn **cyfiawn** (mwy na "da a charedig" Beibl.net yma).

Tri Dewis

Tri pheth sy'n bosibl: (1) Joseff **oedd** y tad, a Mathew yn amlwg yn gwrthddweud hynny; (2) rhywun arall oedd y tad (a oes ensyniad gan yr Iddewon yn Ioan 8.41?: "Nid plant puteindra mohonom ni": - gydag eironi'r geiriau nesaf: "Un Tad sydd gennym ni, sef Duw", a hwythau'n methu â deall mai am **y** Tad yr oedd Iesu'n siarad hefyd) – dewis hollol annerbyniol; (3) mai Mathew sy'n iawn. Rhaid i ni ddewis rhwng (1) a (3) .Yn y cyswllt yma, mae Mathew yn pwysleisio fod Iesu yn llinach Dafydd, fel mannau eraill yn y Testament Newydd. Ond nid oedd, medd rhai, os nad Joseff oedd ei dad. Mae hyn yn colli'r pwynt mai dyna yn union yr oedd Mathew am ei ddweud. Wrth briodi Mair, **byddai** Joseff yn dod yn dad i Iesu yn ôl y Gyfraith, ac felly byddai Iesu yn llinach Dafydd mewn modd hollol annisgwyl a rhyfedd.

Gwaredwr Israel a'r Cenhedloedd

Mae Mathew 1 a 2 o safbwynt Joseff, ac felly peth arall od yw nad yw Joseff yno pan ddaw'r seryddion i "dalu gwrogaeth", nid "addoli" (BCN: TN 1975 oedd yn iawn), fel gyda honiad cyfrwys Herod. Mae'r ddwy bennod gyfatebol yn Luc, Luc 1 a 2, yn adrodd y cyfan o safbwynt Mair. Er yr anghysondebau rhwng Luc a Mathew, a'r ffaith fod elfennau barddonol a symbolaidd yn cael eu defnyddio yn ogystal â ffeithiau hanesyddol, mae rhai pethau cyffredin i'r ddau: fod Mair yn wyryf yn beichiogi (byddai tynnu allan 1.34, yr unig gyfeiriad uniongyrchol at y ffaith, er hynny yn difa holl rediad a thrywydd yr hanes); mai Iesu, y Josua newydd, y Gwaredwr (oddi wrth bechodau) fydd enw'r plentyn; a bod hyn o'r Ysbryd Glân. Ei ddyfodiad ef fydd "gyda ni **Duw**", medd Mathew, a dyma mewn gwirionedd yw'r hyn sy'n crynhoi presenoldeb Iesu yn y byd: y Gwaredwr i Israel ac i'r Cenhedloedd, fel y dywed Simeon yn Luc 2, yn cyflawni Galatiaid 4.4: "wedi ei eni o wraig, wedi ei eni dan y Gyfraith." A dyna pam mae Luc yn mynd â'i achres ef yn ôl i Adda: Iesu'n ddyn, nid dim ond Iddew.

DALIER SYLW

Bydd Tŷ John Penri ar gau dros wyliau'r Nadolig, o ddydd Mercher, 21 Rhagfyr 2016, hyd 9.00am fore Mawrth, 3 Ionawr 2017.

Os bydd angen, gellir cysylltu â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, y Parchg Ddr Geraint Tudur ar y teleffon trwy alw **07909-976908**, neu trwy anfon e-bost at:

undeb@annibynwyr.cymru

Diolch am bob cefnogaeth i'r Undeb yn ystod 2016, a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chwi i gyd.

Barn Annibynnol

Dadlythrenoli'r Nadolig

Geraint Rees

Eleni, am y tro cyntaf, rwy wedi sylwi ar ddadleuon diwinyddol estynedig am natur y Nadolig ar y cyfryngau cymdeithasol cyffredin. Neithiwr, mewn ymateb i gwestiwn a ofynnwyd gan un blogiwr o dde Cymru am rôl Mair Forwyn yn yr holl stori, datblygodd trafodaeth fywiog iawn. Braf yw gweld hyn, ac mae'n awgrymu i mi fod diddordeb gwirioneddol gan bobl y tu allan i'r eglwysi mewn materion ffydd. Yn aml, maen nhw'n holi cwestiynau agored, onest. Yn anffodus, mae'r diddordeb weithiau yn cael ei ddiffodd yn gyflym iawn wrth i rai Cristnogion ddechrau ateb cwestiynau'r holwyr onest agored gydag atebion caëedig.

Ateb Hurt

Yr un mwyaf hurt a welais i heddiw oedd ymateb gan Gristion trwy wefan *http://www.bibleanswerstand.org/conceived.htm* Gwefan yw hon sy'n ceisio rhoi atebion 'ysgrythurol' i broblemau y mae pobl yn eu codi. Byddwch yn falch i ddeall mai'r esboniad am y Nadolig yw:

'Obviously God did not use copulation to produce the motile sperm cell thru insemination. Instead, in a haze of brilliancy His spirit surrounded Mary as He effortlessly created the male gamete cell within the fertile egg of this virgin woman. The male gamete that God created subsisted with all the necessary DNA molecules to produce a male human being, including allelomorphic and mitochondria properties.'

Pan fo 'gwyddoniaeth' a darluniau cyfoethog y ganrif gyntaf yn cwrdd, cawn weledigaeth unigryw o fywyd.

Mae cwestiynau pobl yn rhai real iawn - hyd yn oed os nad yw'r atebion yn cyrraedd y nod. Mae'n debyg ei bod hi'n wir i ddweud fod y rhan fwyaf o Gristnogion y ganrif hon wedi llythrenoli storïau geni Iesu a welir yn unig ym Matthew a Luc, er bod digon yn y storïau i awgrymu nad dyna'u bwriad.

Gwyddoniaeth v Mytholeg

Gwyddom nad yw'r sêr yn symud yn ddigon araf i sêr ddewiniaid allu eu dilyn ar droed, (nac hyd yn oed ar gefn camel). Dyw sêr ddim chwaith yn stopio uwchben adeiladau penodol. Dyw pobl dramor ddim fel arfer yn teithio i dalu gwrogaeth i frenin sy'n fab i saer. Mae'n anarferol iawn i wyryf feichiogi – er mae'n debyg ei fod yn gysyniad sy'n rhan o fytholeg llawer gwlad ym Môr y Canoldir. Rhaid cyfaddef hefyd y byddai golwg wael iawn gyda ni heddiw ar ddyn fyddai'n mynd â'i wraig am sbin o bron i 100 milltir ar gefn asyn pan ei bod yn drwm o feichiog.

Mae'n amlwg fod Matthew a Luc yn defnyddio'r storiau i roi bri ar y grym anarferol, hyd yn oed dwyfol ei natur, a brofwyd ym mywyd Iesu'r oedolyn. Mae storiau'r doethion a'u gwreiddiau yn yr Hen Destament. Mae hanes Herod yn lladd y plant yn adlais o hanesion y Pharo yn lladd babanod yn yr Aifft, ac felly'n ffordd o roi statws Mosesaidd i'r Iesu.

Mae grym Iesu Grist yn cael ei fynegi mewn hanesion sy'n tynnu at ei gilydd y nefoedd a'r ddaear – y sêr a'r angylion ar yr un llaw a'r llety tlawd ar y llaw arall.

Crist i Bawb

Roedd cyflwyno Iesu fel Meseia yn galw am symbolau pwysig. Roedd ei wisgo yn olyniaeth Moses ar yr un llaw (Herod fel Pharo, a'r dianc i'r Aifft) a Dafydd (Brenin Bethlehem) ar y llall yn allweddol bwysig wrth apelio at Iddewon. Fodd bynnag, i mi y symbol pwysicaf wrth werthfawrogi'r Nadolig yw'r ymdrech a wnaed yn yr efengylau i ddweud fod Iesu Grist i bawb. Mewn un cofnod cawn ddyfodiad y doethion crand o genhedloedd y dwyrain (nid Iddewon), ac ar yr un pryd mae'n destun addoliad i fugeiliaid (Iddewig?) garw'r bryniau uwchben Bethlehem.

Mae'n debyg na fyddai Paul na Marc wedi clywed yr hanesion Nadoligaidd - daethon nhw i fodolaeth yn y 9fed degawd, ac mae Ioan (awdur yr efengyl hwyraf i gael ei ysgrifennu) yn cyfeirio ddwywaith at Iesu fel mab Joseff. Mae'r hanesion fel y'u cyflwynir i ni yn ceisio esbonio mawredd yr Iesu a greodd y fath gyffro mewn pobl. Y cyffro hwnnw sy'n dal i danio calonnau pobl ar draws y byd. Gwae ni os collwn y ddawn o adael i'r symbolaeth siarad â ni wrth i ni lythrenoli'r storiau tu hwnt i grebwyll. Ein her ni yw eu hadrodd mewn ffordd sy'n gadael i'w gwirioneddau cyfriniol ein hysbrydoli, gan obeithio y caiff y rhai sydd heb eto eu geni fyw mewn byd fydd yn dal i brofi'r rhin arbennig hwnnw. Nadolig Llawen i chi.

Geraint Rees

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

DAETH LLYWYDD NEF A LLAWR

Un o gylchgronau cynharaf y Gymraeg yw *Trysorfa Ysprydol*. Cylchgrawn Cristnogol ydoedd a ymddangosodd yn ysbeidiol o 1799 ymlaen dan olygyddiaeth dau o arweinwyr amlycaf y Methodistiaid Calfinaidd, Thomas Charles o'r Bala a Thomas Jones o Ddinbych.

Yng ngholofn farddol rhifyn Hydref 1800 ceir pum pennill ag 'Emyn Nadolig' uwch eu pen. Cyhoeddir y tri phennill cyntaf yma. Dienw oedd yr emyn yn y cylchgrawn. Cafodd ei briodoli yn eithaf cynnar i Thomas Jones, Dinbych, ond nid yw yn y casgliad o'i emynau a gyhoeddwyd yn 1814. Fe'i priodolir yn bur gynnar hefyd i emynydd enwog y Bedyddwyr, Benjamin Francis, a fu farw yn 1799, ond nis ceir yn ei lyfrau ef ychwaith.

Pwy bynnag oedd yr awdur, ymddangosodd yr emyn yn aml iawn yng nghasgliadau emynau'r gwahanol enwadau yn ystod y ganrif ddiwethaf. Ac mae hynny'n gryn glod iddo, oherwydd (fel yr awgrymodd Syr Ifor Williams un tro) mae pob emyn anhysbys yn ein casgliadau yn siŵr o fod yn un da, am na fyddai unrhyw reswm arall gan neb o'r golygyddion dros ei gynnwys!

Daeth Llywydd nef a llawr
I wisgo dynol gnawd;
Wel, henffych, Arglwydd mawr!
A henffych, dirion Frawd!
Henffych i'n Duw a'n Ceidwad hael
A welwyd yn y preseb gwael!

Mewn cnawd, i'n tynnu'n rhydd,
Daeth y Tragwyddol Air;
Wel, henffych fyth i'r dydd
Y ganwyd Ef o Fair!
O'i ras fe ddaeth o uchder ne'
I brofi'r lladdfa yn ein lle.

I groth y wyryf wan,
I garchar, ac i'r bedd,
Y daeth Ef ar ein rhan,
I haeddu gras a hedd:
Mewn ing a loes ar Galfari
Agoryd wnaeth y nef i ni.

O *Trysorfa Ysprydol*, Hydref 1800
(Allan o Carolau a'u Cefndir, E. Wyn James)

BLWYDDIADUR 2017

UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

Yn cynnwys
Dyddiadur, Darlleniadur, Suliadur
a Llawlyfr

Pris: £7.50

yn gynnwys cludiant

AR GAEL NAWR

Cysylltwch â Thŷ John Penri
i archebu eich copi
01792 795888
undeb@annibynwyr.org